

Ffordd Ddosbarthu'r Morfa – Cam 2, Adroddiad Cynnydd 5

Priffyrdd a Chludiant



Mae ail gam Ffordd Ddosbarthu'r Morfa bellach wedi'i gwblhau ac mae'n gwbl agored i'r cyhoedd. Mae'r llwybr wedi cael ei agor i hwyluso mynediad i ddatblygiad tai newydd Persimmon, sef Glan yr Afon, ar hen iard Hastie, ar ôl i'r cwmni agor ei swyddfa werthiannau ar 16 Ionawr. Er na fydd modd i gerbydau gysylltu trwedd i'r rhan o Heol y Morfa sydd eisoes yn bodoli nes i'r holl waith gwella gael ei gwblhau, gall cerddwyr a beicwyr ddefnyddio'r cyswllt unwaith y bydd Persimmon wedi cwblhau gwaith i osod gwasanaethau newydd trwy'r droedffordd. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn diwedd y mis hwn.

Fel a ddangosir yn y ffotograffau atodedig, mae'r prosiect wedi ceisio diogelu treftadaeth y safleoedd trwy gyfres o gynlluniau atgyweirio adeileddol, wrth annog cysylltiadau ac ymweliadau â safle'r gwaith copr gerllaw.

Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod wrthi'n paratoi ei gynnis cludiant cyhoeddus diweddaraf ac, o bosib, olaf i Lywodraeth Cymru a fydd, os yw'n llwyddiannus, yn galluogi cyflawni camau'r prosiect sy'n weddill gan ddisgwyl cwblhau'r gwaith erbyn canol 2017. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys cyswllt newydd â'r cylchfan ger Stadiwm Liberty ac adnewyddu'r rhan o Heol y Morfa sydd eisoes yn bodoli.

Mae'r prif contractwr, T. Richard Jones, yn parhau i weithio ar y prosiect, gan estyn y gwaith ar hyd cam nesaf y llwybr i'r gogledd o Glwb Cymdeithasol Glandŵr. Yn ddiweddar ymwelodd cynrychiolwyr o Dîm Priffyrdd a Chludiant Cyngor Abertawe a T. Richard Jones ag Ysgol Gyfun Pentrehafod gerllaw i hyrwyddo ymgyrch Sefydliad y Peirianwyr Sifil,

Pontydd i Ysgolion. Roedd yr ymarfer yn cynnwys plant yn adeiladu pont ategion cebi 15m ac yn cyflwyno'r diwydiant peiranneg sifil mewn ffordd ddifyr ac addysgol.

Mae hyn yn rhan o gyfres o fesurau sydd â'r nod o wella cysylltiadau cymunedol a gadael mwy ar ei ôl na'r gwaith ffisegol yn unig.

Uchod: y briffordd wedi'i chwblhau. Isod: y mynediad newydd i safle rhannol orffenedig Glan yr Afon



I gael mwy o wybodaeth am Gynllun Ffordd Ddosbarthu'r Morfa, ewch i wefan prosiect y cyngor:

www.swansea.gov.uk/morfadistributorroad



This
is Civil Engineering
Dyma
yw Peirianeg Sifil



CITY AND COUNTY OF SWANSEA
DINAS A SIR ABERTAWA
Adran yr Amgylchedd – Cludiant a Pheirianeg
www.swansea.gov.uk

